O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2025 Rhif 614 (Cy. 101)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Dileu Cyfyngiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2025

Gwnaed	*22 Mai 2025*
Yn dod i rym	*26 Mai 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1)(a) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adrannau 83(1) a 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Dileu

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

Cyfyngiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2025 a daw i rym ar 26 Mai 2025.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Dileu cyfyngiadau

3. Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984.

Cyfyngiad

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mai 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Dileu cyfyngiadau

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gylchfan Coryton, Caerdydd hyd at bwynt 490 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Pontypridd.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 895 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd hyd at bwynt 350 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Coryton sy'n ymestyn o bwynt 120 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Coryton hyd at ei thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gogledd yr A470.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i thrwyniad â phrif gerbytffordd tua'r gogledd yr A470 hyd at bwynt 174 o fetrau i'r de o'r trwyniad hwnnw.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darn o gerbytffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 35 o fetrau i'r de o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Abercynon hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd.

Y darn o gerbytffordd tua'r de'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 555 o fetrau i'r de o drwyniad y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad, Pontypridd hyd at bwynt 740 o fetrau i'r gogledd o drwyniad y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r de wrth Gyffordd Navigation, Parc Navigation, Abercynon.

Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Ffynnon Taf sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4054 Cardiff Road hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.